

ssia

Social Services Improvement Agency
Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru

Adolygu eu gwaith yn ôl themâu

Gorffennaf 2016



WLGA • CLILC



Leading Social Services
in Wales
Yn arwain
Gwasanaethau Cymdeithasol
yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydnabyddiaeth

Hoffai Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) ddiolch i staff timau ailalluogi trwy Gymru gyfan am eu cymorth yn ystod yr adolygiad a'r seminar am faterion ailalluogi.

Cynnwys

1. Crynodeb o'r adolygu.....	4
2. Trosolwg ar y gwasanaethau.....	8
3. Thema 1: Technoleg gynorthwyol.....	10
4. Thema 2: Asesu'n gymesur.....	14
5. Thema 3: Mesur deilliannau.....	16
6. Thema 4: Cydlynu yn y gymuned/Trosglwyddo cyfrifoldebau ac adolygu.....	19

1. Crynodeb o'r adolygu

Mae gwasanaethau ailalluogi yn helpu pobl i ddysgu/ailldysgu medrau byw'n feunyddiol sydd wedi'u colli trwy ddirywiad yng nghyflwr eu hiechyd, gan arwain at angen rhagor o gymorth arnyn nhw.

'Diben ailalluogi yw helpu pobl i wneud pethau drostyn nhw eu hunain a manteisio i'r eithaf ar eu gallu i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Mae'n ymwneud â diwallu pob angen – corfforol, cymdeithasol a theimladol.'

(Cynghair Ailalluogi Cymru)

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) wedi helpu i gyflawni rôl ailalluogi yng Nghymru ers sawl blwyddyn trwy Rwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi ar gyfer y rhai sy'n arwain materion ailalluogi yn yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd, yn bennaf. Rydyn ni wedi trefnu seminarau, llunio adnoddau i'w defnyddio ledled y wlad ac ysgrifennu datganiad am sefyllfa ailalluogi – y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Nodwyd canolbwynt a phrif themâu'r adolygiad hwn trwy drafodaethau gydag aelodau'r rhwydwaith. Cytunodd pawb y byddai o fudd pe gallen ni astudio'r pedair agwedd hyn fel y gallen ni ddeall sut maen nhw'n cael eu trafod yng Nghymru a pha anawsterau sydd i'w hwynebu. Yn ogystal â thrafodaethau gyda'r awdurdodau lleol, cynhaliodd SSIA seminar i astudio'r themâu yn fanylach a helpu i gyfeirio'r adroddiad hwn.

Thema 1: Technoleg gynorthwyol – Canfyddiadau allweddol

Ystyr 'technoleg gynorthwyol' yma yw cyfarpar sy'n helpu pobl i weithredu, ymaddasu neu ailsefydlu. Gall technoleg o'r fath fod o gymorth mawr i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ailalluogi. Dyma'r prif ganfyddiadau:

Cryfderau:

- Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau ailalluogi yn trafod teleofal a thechnoleg gynorthwyol gyda'r defnyddwyr a'u cynhalwyr.

Anawsterau:

- Mae trefniadau rheoli staff teleofal yn amrywio'n fawr ledled Cymru ac mae cysylltiadau anghyson iawn â gwasanaethau tele-iechyd, hefyd.
- Mae'r ymgysylltu rhwng staff teleofal ac ailalluogi yn amrywio'n fawr.
- Ym marn timau cyfun yn y gymuned, mae staff iechyd yn fwy ymwybodol o'r modd y gall teleofal a thechnoleg gynorthwyol helpu pobl i fyw'n annibynnol.
- Mae'n anodd i sawl gwasanaeth ailalluogi reoli moddion pobl a bydd hynny'n amharu ar gynnydd unigolion, yn aml.

Thema 2: Asesu'n gymesur – Canfyddiadau allweddol

Bydd lefel a manylder proses asesu rhywun a hoffai ddefnyddio gwasanaeth ailalluogi yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau a dyna'r rheswm dros asesu pawb yn gymesur. Dyma'r prif ganfyddiadau:

Cryfderau:

- Mae pob gwasanaeth o'r farn bod rhaid asesu pawb yn gymesur. Dywedodd y rhan fwyaf y byddai eu prosesau asesu'n canolbwyntio ar ddeilliannau.
- Mae naw gwasanaeth yn trafod 'yr hyn sy'n bwysig' i ddarpar ddefnyddwyr gyda nhw a bydd pedwar arall yn mabwysiadu'r dull hwnnw maes o law.
- Dywedodd bron pob gwasanaeth cyfun fod y proffesiynolion i gyd yn defnyddio'r un dogfennau i symleiddio'r asesu a helpu i rannu gwybodaeth.

Anawsterau:

- Mae prinder systemau cyfun ynglŷn â thechnoleg gwybodaeth. Dim ond mewn pedwar gwasanaeth mae sistem o'r fath. Lle mae systemau wedi'u cyfuno, mae proses rhannu gwybodaeth trwy gyfrwng electronig yn symlach.
- Ymhlith y 19 awdurdod lleol gymerodd ran yn yr adolygiad, dim ond naw ddywedodd eu bod yn defnyddio gwybodaeth am ailalluogi i bennu cymorth dros y tymor hir.

Thema 3: Mesur deilliannau – Canfyddiadau allweddol

Mae gwasanaethau ailalluogi yn canolbwyntio ar ddeilliannau trwy edrych ar unigolion a'u helpu i bennu'r hyn yr hofffen nhw ei gyflawni a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw i'w galluogi i fyw mor ddiogel ac annibynnol ag y bo modd. Felly, mae trefn pennu a mesur deilliannau yn hanfodol i'r diben hwnnw. Dyma'r prif ganfyddiadau:

Cryfderau:

- Dywedodd pob gwasanaeth y bydd yn nodi deilliannau gwasanaethol. Dim ond naw ddywedodd y bydden nhw'n nodi deilliannau personol, fodd bynnag. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n bwriadu cofnodi deilliannau personol maes o law.
- Mae pob gwasanaeth yn cadw golwg ar gynnydd ailalluogi i weld lle mae nodau wedi'u cyflawni ac a oes angen eu newid.
- Byddai pob gwasanaeth yn ystyried defnyddio gwybodaeth am gyflawniad i gyfeirio trefniadau comisiynu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Anawsterau:

- Dim ond ychydig o hyfforddiant sydd wedi'i roi i helpu staff i weithio yn ôl deilliannau, er bod rhai gwasanaethau'n bwriadu rhoi rhagor yn rhan o'r ymdrech i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

- Cadarnhaodd pob gwasanaeth nad oes adborth am gynnydd hirdymor pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau ailalluogi.
- Dywedodd rhai fod disgwyliadau afresymol yn broblem gyda theuluoedd, yn arbennig lle mae staff yr ysbyty wedi dweud wrth gleifion y byddai hawl gyda nhw i fynnu gofal gartref yn rhad ac am ddim dros chwe wythnos.

Thema 4: Cydlynu yn y gymuned, trosglwyddo cyfrifoldeb ac adolygu – Canfyddiadau allweddol

Mae'r cynllunio ar gyfer yr hyn y bydd rhywun yn ei wneud ar ôl ailalluogi yn hanfodol i'r modd y bydd yn gwella ac yn parhau i fyw'n annibynnol. Mae rôl cymorth yn y gymuned neu barhad gwasanaeth yn hollbwysig, a rhaid rhoi pob ystyriaeth i broses trosglwyddo cyfrifoldebau gwasanaeth ailalluogi i wasanaethau eraill. O adolygu cynnydd rhywun y tu hwnt i ailalluogi, mae'n haws penderfynu a fydd angen rhagor o driniaeth, hefyd. Dyma'r prif ganfyddiadau:

Cryfderau:

- Ynglŷn â throsglwyddo cyfrifoldebau, dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau y gallen nhw barhau â'r ailalluogi ar ôl chwe wythnos, yn arbennig i'r rhai ac arnynt anghenion cymhleth neu ddryswch henaint.

Anawsterau:

- Dywedodd 10 gwasanaeth mai gweithiwr cymdeithasol nad yw'n perthyn i wasanaeth ailalluogi sy'n paratoi cynllun gofal ac yn pennu a oes hawl gan rywun i fynnu cymorth dros y tymor hir.
- Soniodd naw gwasanaeth am anawsterau wrth drosglwyddo'r awenau o achos prinder gwasanaethau cymorth hirdymor, yn arbennig yng nghefn gwlad.
- Y ffordd arferol o ofalu am bobl yw gwneud pethau drostyn nhw. Felly, dywedodd naw gwasanaeth nad oedden nhw'n hyderus y byddai darparwyr allanol yn gallu cadw at ddull sy'n ymwneud ag ailalluogi a deilliannau dros y tymor hir.

Trafodwyd amrywiaeth helaeth o ddogfennau ac adnoddau yn ystod yr adolygiad hwn ac mae'r awdurdodau lleol wedi bod mor garedig â'u rhannu ar gyfer ein gwaith. Mae'r adnoddau i gyd ar wefan SSIA: www.ssiacymru.org.uk/reablement

2. Trosolwg ar y gwasanaethau

I bennu cyd-destun yr adolygiad, cynhaliwyd trafodaethau gyda phob awdurdod lleol a fyddai'n cymryd rhan ynddo ynglŷn â throsolwg ar ei wasanaeth ailalluogi. Dyma'r prif agweddau ddaeth i'r amlwg ymhlith gwasanaethau o'r fath yng Nghymru:

- i) Yn ôl adroddiad gyhoeddodd SSIA fis Rhagfyr 2014, 'Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru', byddai rhaid rhoi'r gorau i asesu pobl oedd wedi'u hatgyfeirio i bennu pwy fyddai'n addas i ailalluogi ac, yn lle hynny, cynnig ailalluogi i bawb a hoffai gymorth o'r fath (oni bai bod amgylchiadau megis dryswch henaint i raddau difrifol neu glefyd marwol lle mae'n well gwneud y gorau o'r amser sy'n weddill yn hytrach na cheisio meithrin fedrau i'w defnyddio dros y tymor hir). Mae'r drefn newydd yn cyd-fynd ag ysbryd ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

Mae 18 o'r 19 gwasanaeth a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu yn ôl y drefn newydd bellach, gan amlygu dull ymgysylltu mwy cynhwysol o lawer.

- ii) Mae'n ymddangos bod tipyn o amrywio ynglŷn â strwythur gwasanaethau. Mae'r chwe gwasanaeth yn y gogledd yn cael eu cynnal a'u rheoli gan yr awdurdodau lleol. Yn y rhan fwyaf o wasanaethau eraill, fodd bynnag, mae trefniadau gofal iechyd a chymdeithasol wedi'u cyfuno.

Cyfeiriodd chwe gwasanaeth at gynnwys ailalluogi mewn cytundebau sydd ar waith neu ar y gweill yn ôl gofynion Adran 33.¹ Dyma ffactorau allweddol eraill ddaeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau am wasanaethau:

- Mae Cronfa'r Gofal Cyfamserol wedi bod o gymorth mawr o ran gwella gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau ar gael am ragor o oriau bob dydd ac mae rhagor o broffesiynolion iechyd gyda nhw bellach, yn arbennig lle y gwelir ailalluogi yn broses o bwys pan fo cleifion yn gadael yr ysbyty.
- Mae sawl gwasanaeth wedi sefydlu dolen gyswllt ar gyfer atgyfeirio bellach.
- Mae sawl gwasanaeth ailalluogi wedi'i ehangu i gynnwys pennu pecynnau priodol. Er enghraifft, asesu pobl sydd wedi derbyn cymorth dros dymor hir i weld a oes gwir angen rhoi'r cymorth ychwanegol y gofynnwyd amdano neu a fyddai modd helpu'r sawl dan sylw i fyw'n fwy annibynnol. Nid pob gwasanaeth sydd wedi'i addasu i ymdopi â'r galw ychwanegol hwn, fodd bynnag.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn pryderu am gadernid y sector annibynnol o achos anawsterau megis denu a chadw gweithwyr.
- Mynegwyd pryderon am doriadau cyllidebol yn ogystal â Chyflog Byw Gwladol.

¹ Cytundeb ffurfiol ar gyfer cyfuno cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol a chyrrff iechyd

3. Thema 1: Technoleg gynorthwyol

Ystyr 'technoleg gynorthwyol' yma yw cyfarpar sy'n helpu pobl i weithredu, ymaddasu neu ailsefydlu. Mae technoleg gynorthwyol yn hybu rhagor o annibyniaeth trwy alluogi pobl i wneud pethau na allen nhw eu gwneud o'r blaen – a hynny trwy wella neu newid ffyrdd o ddefnyddio'r dechnoleg briodol. Mae gwasanaethau teleofal yr awdurdodau lleol yn rhoi amryw ffyrdd o helpu pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, megis larymau. Ochr yn ochr â theleofal, mae gwasanaethau tele-iechyd yn helpu staff i gadw llygad ar gyflwr iechyd pobl o hirbell mewn materion megis pwysedd eu gwaed.

Darparu gwasanaethau

Dyweddodd pob awdurdod lleol ei fod yn cynnig systemau larymau sydd wedi'u cysylltu ag amryw offer monitro a synhwyro. Sefydliadau allanol sy'n cynnal y systemau hynny mewn sawl achos er bod gweithwyr teleofal yn gweithio'n uniongyrchol i'r awdurdod. Yn aml, maen nhw'n ymwneud â storfa'r offer cymunedol neu gyrff gofal a thrwsio.

Rheoli gwasanaethau

Mae trefniadau rheoli swyddogion teleofal sy'n helpu i ddatblygu gwasanaeth yn strategol ac yn cynnig cyngorion am ddewisiadau ac offer yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau teleofal reolwr sy'n ymwneud â swyddog y teleofal ac, mewn dau awdurdod, rheolwr y materion ailalluogi yw goruchwyliwr swyddog y teleofal. Mewn ardaloedd eraill, adrannau tai neu wasanaethau corfforaethol sy'n rheoli teleofal.

Mae'r ymgysylltu â gwasanaethau teleofal yn amrywio'n sylweddol ond gwerthfawrogi rôl teleofal lle mae gwasanaethau ailalluogi a theleofal wedi'u cyfuno. Lle mae swyddog y teleofal yn perthyn i adran arall neu'n gyfrifol am ardal fawr, fodd bynnag, mae'r cyswllt yn wannach ac roedd y rhai gymerodd ran yn yr adolygiad o'r farn bod lle i wella hynny.

Gwasanaethau ymateb

Does gan y rhan fwyaf o wasanaethau teleofal drefniadau ymateb symudol. Fel arfer, rhaid i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth nodi perthynas neu gyfaill sy'n fodlon ymateb pe bai argyfwng. Os nad yw hwnnw ar gael, ffonnir y gwasanaethau brys ar yr amod bod allwedd mewn lle diogel y tu allan i'r tŷ.

Dyweddodd chwech awdurdod fod gwasanaeth ymateb symudol gyda nhw – dau ar waith drwy'r amser a dau gyda'r nos. Mae tystiolaeth yn dangos bod hynny wedi arbed tipyn o amser ac arian i wasanaeth yr ambiwlansys ac mae'n well i'r unigolion am na fydd rhaid mynd i'r ysbyty yn y rhan fwyaf o achosion.

Dim ond un gwasanaeth ailalluogi sy'n cofnodi galwadau teleofal bob dydd. O dderbyn yr wybodaeth honno, gall rheolwr weld pwy ar y rhestr sy'n ymwneud ag ailalluogi a thynnu sylw'r staff at hynny. Lle mae teleofal ar waith trwy drefn allanol, does neb yn rhannu systemau technoleg gwybodaeth fel y gall rheolwyr ailalluogi weld y data yn syth.

Codir tâl ar wahân am alwadau atgoffa er bod y rheiny'n gysylltiedig â chytundeb sistem larwm fel arfer.

Materion moesegol

Gall teleofal a thechnoleg gynorthwyol, ac eithrio systemau larwm, feithrin ymhlith pobl sy'n ymwneud ag ailalluogi a'u teuluoedd farn bod 'Brawd Mawr' yn cadw llygad arnyn nhw. Wrth drafod hynny, daeth i'r amlwg bod rhaid i staff ailalluogi fod yn dringar a chyfeirio'n eglur at Ddeddf Gallu'r Meddwl lle mae nam ar amgyffred rhywun. Dywedodd rhai awdurdodau mai thechnoleg gynorthwyol fyddai'r dewis lleiaf cyfyngol wrth ystyried buddiannau'r unigolyn weithiau.

Just Checking

Mae dull monitro 'Just Checking'² yn ddefnyddiol iawn i'r rhai yn y teulu sy'n gofalu am bobl ac arnynt ddryswch henaint. Dim ond pedwar awdurdod lleol sy'n defnyddio'r dull hwnnw yn rheolaidd, fodd bynnag. Defnyddir weithiau mewn chwe bro, go brin mewn tair a dim o gwbl mewn chwech arall.

Ymwybyddiaeth gwasanaethau ailalluogi o delefal

Dim ond dau wasanaeth ailalluogi sydd heb ofalu bod y staff yn trafod trefniadau teleofal a thechnoleg gynorthwyol gyda'r client a'i deulu neu ei gynhalwyr. Serch hynny, fodd bynnag, does dim gofyn i hyfforddi staff ailalluogi ynglŷn â materion teleofal er bod un gwasanaeth wedi dweud bod ei staff i gyd wedi'u hyfforddi a bod staff gwasanaeth arall yn gwybod sut i osod offer teleofal. Mae un gwasanaeth wedi rhoi hyfforddiant o'r fath yn ystod rhaglen gyflwyno'r staff. Mewn gwasanaeth arall, mae'r cynorthwywyr ailalluogi yn astudio ar gyfer diploma therapi galwedigaethol ac mae teleofal ymhlith modiwlau'r cwrs. Nodwyd bod un gwasanaeth yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant gorfodol. Ym mhob un o'r gwasanaethau eraill, mae ymwybyddiaeth y staff wedi'i meithrin trwy roi'r diweddaraf yn rheolaidd a gwahodd swyddogion teleofal i gyfarfodydd y tîm.

Dywedodd pedwar gwasanaeth fod lle i wella yn y maes hwn. Awgrymodd un y gallai awdurdodau cyfagos ystyried ariannu swyddog teleofal a chanddo orchwyl strategol ar y cyd yn ogystal â gofalu bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael.

Rhoi gwasanaethau

Mae amryw broblemau o ran dod â'r offer, a dywedodd tri gwasanaeth bod hyn yn bryder drwy'r amser. Dywedodd un gwasanaeth fod targedau wedi'u pennu i gyrff allanol ynglŷn â dod â'r offer i'r clientiaid.

Mae gan sawl gwasanaeth ailalluogi berthynas dda â storffeydd offer ac mae'n ymddangos nad oes pwyslais ychwanegol ar roi'r offer ar gael yn gyflymach pan fo'r cais yn ymwneud â chlaf sydd ar fin gadael yr ysbyty. Fe ddywedodd un gwasanaeth fod ganddo offer wrth gefn ar gyfer achosion o'r fath.

² Teclyn monitro arloesol sy'n galluogi pobl yn ystod camau cynnar Clefyd Alzheimer neu ddryswch henaint i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Ymwybyddiaeth o iechyd ac ymgysylltu â theleofal a thechnoleg gynorthwyol

Yn ôl staff timau cyfun yn y gymuned, mae gweithwyr iechyd yn fwy ymwybodol o rôl teleofal a thechnoleg gynorthwyol ynglŷn â helpu pobl i fyw'n annibynnol, yn arbennig dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae strategaeth teleofal a thele-iechyd ar y gweill mewn un ardal.

Mewn ardal arall, hyrwyddir ymwybyddiaeth o deleofal ymhlith grwpiau dryswch henaint a Chlefyd Parkinson yn ysbyty'r fro. Ymddangos nad oes ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o'r fath ymhlith staff iechyd cymuned mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaethau cyfun (mynegodd un rwystredigaeth pan ddywedodd therapyddion iechyd galwedigaethol nad oedden nhw o blaid defnyddio technoleg).

Yn ôl y rhan fwyaf o'r rhai gymerodd ran yn yr arolwg, dyw staff ysbytai ddim yn gwybod llawer am dechnoleg gynorthwyol. Dywedodd un fod y broblem honno wedi'i datrys trwy symud therapyddion galwedigaethol i ganolfan arall bob hyn a hyn. Dywedodd un arall y byddai staff ysbytai sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion yn mynnu gormod o deleofal mewn cynlluniau cymorth ac yn argymhell offer heb fod yn siŵr y gallai'r cleifion eu defnyddio. O ganlyniad, roedd adnoddau wedi'u dyrannu'n amhriodol a gallai hynny amharu ar ymdrech i hybu teleofal yn y dyfodol.

Rheoli moddion

Dywedodd un awdurdod lleol yn bendant na fyddai'n ymwneud â hyn o gwbl achos bod ei uwch reolwyr wedi dweud bod y mater yn ymwneud â maes iechyd. Dywedodd un arall nad un o gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol mo hyn ac na fyddai'n derbyn unrhyw atgyfeiriadau lle nad oedd materion rheoli moddion wedi'u datrys.

Soniodd rhai gwasanaethau am achosion lle na allai pobl adael gwasanaethau ailalluogi, er eu bod yn barod i symud ymlaen, o achos anawsterau rheoli moddion. Mynegodd y rhan fwyaf o wasanaethau bryderon am y mater hwn. Dim ond dau wasanaeth ddywedodd na fyddai'n achosi pryder iddyn nhw. Mae fferylllydd yn rhai o'r timau ailalluogi yn y gymuned ac mae hynny o les ynglŷn â gofalu bod moddion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Y prif faen tramgwydd, fodd bynnag, yw defnyddio dyfais sy'n rhoi moddion ar amserau penodol yn y cartref, yn arbennig ymgysylltu â fferyllfeydd yn y gymuned i'r diben hwnnw.

Cronfa'r Gofal Cyfamserol

Mae'r rhai sydd wedi defnyddio Cronfa'r Gofal Cyfamserol ar gyfer gwasanaethau ailalluogi o'r farn ei bod o les mawr. Mae'r defnydd o'r gronfa wedi amrywio ledled y wlad, megis:

- Offer ychwanegol.
- Pecynnau 'Just Checking' ac offer annibynnol eraill.
- Cryfhau'r gallu i osod offer.
- Hwyluso trefniadau 'Ysbyty Gartref'.
- Sefydlu tîm fferylllyddion.

Dyma ragor o wybodaeth am y gronfa:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/working/icf/?lang=en>

Sylwadau timau ailalluogi awdurdodau lleol:

"Rhaid inni ehangu'r gwasanaeth a dysgu oddi wrth bobl eraill."

"Dyma faes mae angen i fyrddau iechyd wella ynddo."

"Byddai o gymorth pe bai offer mwy cymhleth."

"Rydyn ni'n profi ffurflen hunanasesu ar gyfer teleofal."

"Mae teleofal yn wasanaeth arferol erbyn hyn, a gallen ni gyflawni rhagor."

"Roedd grŵp teleofal aml ei asiantaethau yn ystod cyfnod un o benaethiaid blaenorol y gwasanaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr cyrff iechyd a'r gwasanaeth ymateb."

"Gallai fod modd datrys problem y gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â rheoli moddion trwy ddefnyddio rhagor o weithwyr cyffredinol."

"Gallan ni wneud rhagor, ond rhaid pennu pwy fydd yn arwain hynny."

4. Thema 2: Asesu'n gymesur

Bydd lefel a manylder proses asesu rhywun a hoffai ddefnyddio gwasanaeth ailalluogi yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau a dyna'r rheswm dros asesu pawb yn gymesur. Y modd mae hynny'n mynd rhagddo ledled Cymru oedd o dan sylw yn y rhan hon o'r adolygiad. Dywedodd dau wasanaeth y byddai angen ailalluogi ar rywun o ganlyniad i ryw argyfwng yn ei fywyd. Felly, rhaid ymdopi â'r argyfwng yn gyntaf cyn ei asesu ar gyfer ailalluogi.

Mae pob gwasanaeth o'r farn ei fod yn asesu pobl mewn modd cymesur ac mae'r farn yn arbennig o gryf lle mae dull Vanguard³ wedi'i ddefnyddio ar gyfer asesu. Dywedodd un gwasanaeth ei fod yn ystyried ailalluogi ei hun yn gyfnod asesu ac na fyddai'n casglu ond gwybodaeth fras cyn pennu a fyddai angen defnyddio'r gwasanaeth dros y tymor hir.

Mae rhai staff iechyd o'r farn y byddai hel ond gwybodaeth fras yn groes i'w cyfrifoldebau proffesiynol ac, er y byddan nhw cyflwyno'n gwybodaeth sylfaenol yn ôl gofyn y sefydliad, byddan nhw'n codi nodiadau manwl am yr achos, hefyd.

'Yr hyn sy'n bwysig'

Mae naw gwasanaeth yn trafod materion gyda darpar ddefnyddwyr yn ôl 'yr hyn sy'n bwysig' yn eu bywydau. Dywedodd pedwar arall eu bod wrthi'n cyflwyno'r dull hwnnw. Yn ymateb i'r cwestiwn 'Ydy'ch ffordd o asesu yn cyd-fynd â gofynion y deddf newydd?', roedd chwech o'r farn ei bod yn unol â'r ddeddf a dywedodd chwech bod lle i'w mireinio. Ynglŷn â disgwyliadau'r ddeddf, dywedodd rhai gwasanaethau eu bod yn hyfforddi staff ym meysydd 'cyfathrebu'n effeithiol' a/neu 'sgyrsiau am gryfderau'.

Dogfennau

Mae holl broffesiynolion pob gwasanaeth ond un yn defnyddio'r un ffurflenni. Dim ond pedwar sy'n defnyddio systemau cyfun o ran technoleg gwybodaeth, fodd bynnag, ac mae'r lleill yn gorfod defnyddio amryw ffyrdd o drosglwyddo gwybodaeth i wasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd. Mae pawb yn disgwyl ffordd safonol Cymru o gyflwyno gwybodaeth am ofal cymunedol yn eiddgar.

Cam arloesol mewn un gwasanaeth yw defnyddio pin ysgrifennu digidol gan alluogi'r sawl sy'n cyfweld darpar ddefnyddiwr i gofnodi gwybodaeth a'i hanfon at bawb yn syth.

Sylw ar ddeilliannau

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi cadarnhau eu bod yn asesu pobl yn ôl deilliannau, er na fydd y dull hwnnw'n cyfeirio'r cynlluniau cymorth bob amser. Yn aml, bydd cynllun o'r fath yn ymwneud ag amser a gorchwylion.

³Dull Vanguard: <https://vanguard-method.net/>

Llwybrau

Mae rhai gwasanaethau ailalluogi yn rhan o dimau cymorth ehangach yn y gymuned, ac mae rhai'n elfen o wasanaethau gofal gartref. Hyd yn oed mewn amgylchiadau o'r fath, fodd bynnag, does dim ffordd safonol o drosglwyddo gwybodaeth ar ôl pennu bod eisiau asesu rhywun yn fanylach achos y bydd angen cymorth arno dros y tymor hir. Dim ond naw gwasanaeth ddywedodd eu bod yn defnyddio gwybodaeth am ailalluogi wrth bennu llwybr cymorth dros gyfnod maith.

Sylwadau timau ailalluogi awdurdodau lleol:

"Ydy'r staff yn deall y meddylfryd newydd mewn gwirionedd?"

"Rhaid inni helpu'r staff i ddeall bod deilliannau'n berthnasol i'r defnyddwyr ac y dylen nhw ganolbwyntio ar hynny yn hytrach na phennu a oes 'angen cymorth' ar rywun."

5. Thema 3: Mesur deilliannau

Mae gwasanaethau ailalluogi yn canolbwyntio ar ddeilliannau gan edrych ar unigolion a phennu ar y cyd â nhw yr hyn yr hoffen nhw ei gyflawni a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw i'w galluogi i fyw mor ddiogel ac annibynnol ag y bo modd. Mae'n hanfodol mesur sut roedd deilliannau wedi'u pennu a'u cyflawni i ofalu bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl.

Mesur cyflawniad

Mae pawb gymerodd ran yn yr arolwg yn cofnodi'r hyn sy'n deillio o waith gwasanaethau, gan ddefnyddio amryw ddulliau arbenigol i wneud hynny. Dim ond naw ddywedodd eu bod yn cofnodi deilliannau personol, fodd bynnag. Dim ond y gwasanaethau a gymerodd ran yng ngwaith arbrofol SSIA ynglŷn â Fframwaith Gwladol y Deilliannau sydd o'r farn bod eu deilliannau'n cyd-fynd â meini prawf y fframwaith hwnnw. Mae'n ymddangos bod gweithwyr cymdeithasol yn fwy cyfarwydd o dipyn â'r fframwaith na gweithwyr ieched.

Pwy sy'n asesu?

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae pob gwasanaeth ond un yn asesu pawb sy'n gofyn am ailalluogi. Amryw staff arbenigol megis gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, cydlynwyr a rheolwyr ailalluogi sy'n ymwneud â'r asesu cyntaf (yn ôl deilliannau).

Hyfforddiant

Yn ôl sawl gwasanaeth, dim ond hyn a hyn o hyfforddiant sydd ar gael i helpu gweithwyr i nodi deilliannau personol. Mae rhai gwasanaethau'n canolbwyntio ar hynny yn rhan o'r ymdrech i ateb Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, fodd bynnag. Mae un gwasanaeth o'r farn bod cyfraniad broceriaid y trydydd sector yn ddefnyddiol ynglŷn â hyfforddiant pennu deilliannau.

Dywedodd gwasanaeth arall y byddai'n ddefnyddiol rhoi hyfforddiant o'r fath ar gael i'r darparwyr hirdymor. Cyflwynodd amryw wasanaethau sy'n cynnig cymorth hirdymor sylwadau tebyg, hefyd. Er enghraifft, dylai'r staff ddeall ac arddel agwedd sy'n hyrwyddo ailalluogi a deilliannau.

Cadw golwg ar y cynnydd a'r cyflawniad

Mae pob gwasanaeth yn monitro cynnydd ailalluogi i weld pryd mae nodau wedi'u cyflawni ac a oes angen eu haddasu. Mae rhai gwasanaethau'n cynnal arolwg wythnosol ffurfiol ac mae eraill yn cynnal arolwg ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd yr ailalluogi. Mae dau wasanaeth wedi llunio dull y gall gweithwyr ei ddefnyddio gyda'r sawl maen nhw'n ei helpu er mwyn nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni a'r cynnydd dros amser. Mae'r staff a'r clientiaid wedi croesawu'r dull hwnnw.

Ychydig iawn o wasanaethau sy'n adolygu'r ailalluogi ar ôl iddo ddod i ben. Does neb yn derbyn adborth am y rhai sydd wedi'u hailalluogi wedyn i ddibenion adolygu hirdymor ond mae un gwasanaeth yn ystyried llunio dogfen ar gyfer cofnodi cynnydd unigolion yn ystod yr ailalluogi a'r pontio i gymorth hirdymor wedyn lle bo hynny'n briodol. Ddywedodd mo'r un gwasanaeth fod adborth yn rheolaidd. Mae pob gwasanaeth yn defnyddio holiadur am ansawdd naill ai'n rhan o ddangosydd y cytunwyd arno neu'n un o ofynion gwasanaeth cofrestredig.

Mesur y cyflawniad a chyflwyno adroddiadau amdano

Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad gyhoeddodd SSIA fis Rhagfyr 2014, 'Gwasanaethau Ailalluogi Cymru', all rhai gwasanaethau ailalluogi sy'n rhan o wasanaeth i bobl fregus ddim pwysu a mesur eu gwaith ar wahân. Ym mhob ardal arall, y ffordd arferol yw rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gyflawni i reolwr y gwasanaeth bob mis ac i'r uwch reolwyr bob tri mis. Mae un gwasanaeth yn defnyddio'r adroddiad i drafod y cyflawniad gyda'r tîm ac mae gwasanaeth arall yn ei ddefnyddio'n dystiolaeth ar gyfer hunanasesu a chwestiynu blynyddol gyda'r prif weithredwr.

All yr un gwasanaeth ddefnyddio'r data i bennu pam nad yw deilliannau gwasanaethol a phersonol wedi'u cyflawni. Ystyrir, fodd bynnag, y byddai modd hel yr wybodaeth honno trwy archwilio ffeiliau personol. Lle mae ailalluogi'n rhan o wasanaeth cyfun, bydd adran y gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion comisiynu gwasanaethau ieched fel ei gilydd yn gweld gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gyflawni. Fel arall, dim ond swyddogion yn yr awdurdodau lleol fyddai'n gwybod pa mor dda mae gwasanaeth ailalluogi'n gweithio.

Ymgysylltu â theuluoedd

Staff ailalluogi sy'n cwrdd â darpar ddefnyddwyr a'u teuluoedd gyntaf fel arfer ac, felly, maen nhw mewn sefyllfa dda i drafod dulliau ailalluogi ac esbonio y bydd gwasanaethau'n cynnig cymorth o hyn ymlaen, yn hytrach na gofal. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau o'r farn bod eu staff yn gallu cyflawni'r swyddogaeth honno a'i bod yn bwysig gwneud hynny o'r dechrau fel na fyddai disgwyliadau afresymol. Fe ddywedodd rhai fod disgwyliadau o'r fath yn broblem, yn arbennig lle mae staff ysbytai wedi dweud wrth gleifion a'u teuluoedd y byddai hawl gyda nhw i fynnu gofal gartref yn rhad ac am ddim dros chwe wythnos.

Mae un gwasanaeth yn adlunio taflenni i esbonio ailalluogi a dywedodd gwasanaeth arall fod ei awdurdod yn adlunio'r wybodaeth i gyd fel y bydd yn cyd-fynd ag ysbyrd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

Sylwadau timau ailalluogi awdurdodau lleol:

"Yn nhîm ailalluogi ein cymuned, y bwrdd ieched sy'n cadw gwybodaeth am y gwasanaeth ac mae anodd cael gafael arni." (rheolwr mewn awdurdod lleol)

"Rhaid hyfforddi staff ieched, gan gynnwys meddygon, ynglŷn â deilliannau."

"Rwy'n hoffi Fframwaith Gwladol y Deilliannau yn fawr, ond mae'n anodd ei gymathu."

"Dylai deunydd am ailalluogi esbonio beth yn union yw gweithredu yn ôl deilliannau!"

"Fe fydd teuluoedd yn anfodlon pan fo tâl am wasanaeth nad yw'n gwneud dim byd ond gwyllo yn eu barn nhw, yn arbennig ar ôl i rywun oedd yn gallu cymryd ei foddion ei hun adael yr ysbyty."

6. Thema 4: Cydlynu yn y gymuned/trosglwyddo'r awenau/adolygu

Mae'r cynllunio ar gyfer yr hyn y bydd rhywun yn ei wneud ar ôl ailalluogi yn hanfodol i'r modd y bydd yn gwella ac yn parhau i fyw'n annibynnol. Mae rôl cymorth yn y gymuned neu barhad gwasanaeth yn hollbwysig, a rhaid rhoi pob ystyriaeth i broses trosglwyddo cyfrifoldebau gwasanaeth ailalluogi i wasanaethau eraill. O adolygu cynnydd rhywun y tu hwnt i ailalluogi, mae'n haws penderfynu a fydd angen rhagor o driniaeth, hefyd.

Cynllunio ar gyfer cymorth dros y tymor hir

Dywedodd pedwar gwasanaeth fod timau ailalluogi yn comisiynu cymorth hirdymor yn uniongyrchol. Dywedodd tri gwasanaeth arall fod gweithwyr ailalluogi a chymorth tymor hir yn rhan o'r un tîm ac mae'r naill neu'r llall yn cael comisiynu cymorth parhaus.

Dywedodd 10 gwasanaeth mai gweithiwr cymdeithasol nad yw'n perthyn i wasanaeth ailalluogi sy'n paratoi cynllun gofal ac yn pennu a oes hawl gan rywun i fynnu cymorth dros y tymor hir, er y byddai argymhellion staff ailalluogi yn cael eu hystyried o ddifrif ynglŷn â hynny, hefyd. Dywedodd rhai gwasanaethau eu bod yn bwriadu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am feini prawf a chomisiynu cymorth parhaus i dimau ailalluogi.

Trosglwyddo gwybodaeth

Ynghylch trosglwyddo gwybodaeth, mae wedi'i nodi uchod nad yw systemau technoleg gwybodaeth byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweddu bob amser. Gan fod cymorth hirdymor yn cael ei roi trwy'r gwasanaethau cymdeithasol fel arfer, efallai na fydd dogfennau am ailalluogi ar gael yn hawdd mewn gwasanaethau cyfun. Dywedodd pum gwasanaeth na allen nhw drosglwyddo gwybodaeth am ailalluogi.

Gallu ac adnoddau

Soniodd naw gwasanaeth am anawsterau wrth drosglwyddo cyfrifoldebau o achos prinder gwasanaethau cymorth hirdymor, yn arbennig yng nghefn gwlad. Fe ddywedodd pedwar gwasanaeth y byddai anawsterau ambell waith a dywedodd pedwar arall nad oedd gyda nhw broblemau o'r fath (mae staff ailalluogi dau o'r rheiny yn perthyn i wasanaeth gofal gartref ac, felly, fe'u defnyddir yn hyblyg). Lle mae gwasanaethau ailalluogi yn parhau i roi cymorth ar ôl chwe wythnos, codir tâl amdano ac eithrio yn y gwasanaethau lle mae ailalluogi'n rhan o ddarpariaeth iechyd.

Pan fo'n anodd trosglwyddo'r awenau, rhoddir gwybod i uwch reolwyr neu gomisiynwyr. Mae gofyn i un gwasanaeth anfon adroddiad bob wythnos am y rhai sy'n ymwneud ag ailalluogi ar ôl chwe wythnos. Mae gan un gwasanaeth bolisi ffurfiol ar gyfer tynnu sylw uwch reolwyr at bryderon.

Ystod y gwasanaethau

Mae tri gwasanaeth o'r farn nad oes digon o ddewisiadau. Dywedodd un o'r rheiny fod angen dosbarthiadau ymarfer yn y gymuned.

Mae tri gwasanaeth o'r farn bod digon o ddewisiadau ar ôl ailalluogi. Soniodd wyth arall am werth broceriaid y trydydd sector ynglŷn â chynnig dewisiadau mwy creadigol.

Mae'r ardaloedd gwledig ar eu colled eto yn hyn o beth. Fe soniodd dau wasanaeth am waith cydlynwyr/llyw-wyr cymunedol ynglŷn â datblygu gwasanaethau llesiant. Hyrwyddir taliadau uniongyrchol ac mae gwefan Dewis Cymru (www.dewis.wales) wedi bod o les yn yr ardaloedd lle mae ar gael.

Trosglwyddo'r awenau

Dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau fod modd cynnig ailalluogi ar ôl chwe wythnos i'r rhai ac arnyn nhw anghenion cymhleth neu ddryswch henaint, fel arfer. Pan fo angen ailalluogi ar ôl pythefnos ychwanegol, fodd bynnag, rhaid trafod hynny gydag uwch reolwr neu gomisiynydd. Cyrff allanol sy'n rhoi'r rhan fwyaf o gymorth hirdymor. Fe ddywedodd wyth gwasanaeth mai staff ailalluogi sy'n trosglwyddo'r awenau i ddarparwyr newydd. Fe ddywedodd dau wasanaeth arall nad ydyn nhw'n ymwneud â'r trosglwyddo fel arfer ac fe ddywedodd dau na fyddan nhw byth yn ymwneud â'r broses.

Cynnal yr agwedd

Fel sydd wedi'i ddatgan uchod, ychydig iawn o wasanaethau sy'n ymwneud ag adolygu yn uniongyrchol ar ôl i'r ailalluogi ddod i ben a dyw adborth gwasanaethau ddim yn rhan o'r adolygu. Mae gwasanaeth sy'n cynnig ailalluogi a chymorth hirdymor fel ei gilydd wedi llunio cytundeb adolygu lle bydd y defnyddiwr a/neu ei deulu yn derbyn cyfrifoldeb am roi gwybod i'r sefydliad am unrhyw newid yn y deilliannau sydd i'w cyflawni.

Dywedodd naw gwasanaeth nad oes gyda nhw hyder yng ngallu darparwyr allanol i roi cymorth dros y tymor hir yn ôl dull ailalluogi sy'n hybu deilliannau. Dywedodd pedwar gwasanaeth fod amheuan gyda nhw, er gwaetha'r hyn y gallai darparwyr ei ddweud i dawelu eu meddyliau. Mae un gwasanaeth wedi ceisio lleddfu'r pryder trwy drosglwyddo cyfrifoldebau yn ôl proses drylwyr er mwyn gofalu bod darparwyr newydd yn ymwybodol o'r holl waith mae staff ailalluogi wedi'i gyflawni. Y farn gyffredinol yw bod cytundebau 'amser a gorchwylion' yn faen tramgwydd.

Sylwadau timau ailalluogi awdurdodau lleol:

"Dylen ni gael cymryd rhan yn y cyfarfodydd trimisol â darparwyr bob tri mis."

"Mae angen rhagor o hyfforddiant ar ddarparwyr hirdymor."

"Ynglŷn ag ymgysylltu â gwasanaethau hamdden, nid dim ond rhoi dosbarthiadau ar gael sy'n bwysig, ond helpu pobl i ddadwisgo/gwisgo ac ymolchi."

"Mae cytundeb â chyrff iechyd y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal asesiad ariannol yn ystod ailalluogi er mwyn gallu codi tâl yn ddiymdroi pe bai unrhyw oedi o ran trosglwyddo cyfrifoldebau. Mae'r cytundeb hwnnw heb ei weithredu, fodd bynnag, gan arwain at gais ar ôl cais am ailalluogi, hyd yn oed pan nad yw'n briodol, achos bod tyb nad oes rhaid talu amdano."

"Mae'r galw am ragor o gymorth i helpu cleifion i adael yr ysbyty – hyd yn oed pan na fydd ailalluogi'n briodol o reidrwydd – wedi ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau."

"Mae arbrawf yn mynd rhagddo ynglŷn â chwtdogi ar y galw am gymorth deublyg."

Crynodeb

Mae'n amlwg bod digon o gynnydd ynglŷn â datblygu a gwella gwasanaethau ailalluogi Cymru. Dyma rai agweddau sydd wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn: mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn asesu pawb sy'n gofyn am ailalluogi, nid dim ond hyn a hyn; mae pob asesu yn canolbwyntio ar ddeilliannau; mae modd parhau i ailalluogi pobl ar ôl chwe wythnos, yn arbennig i'r rhai ac arnyn nhw anghenion cymhleth neu ddryswch henaint. Mae pob agwedd yn dangos gwelliannau go iawn i wasanaethau a defnyddwyr fel ei gilydd.

Mae sawl her yn wynebu'r gwasanaethau hynny o hyd, fodd bynnag, ac un o'r prif anawsterau yw llwybr yr unigolyn – sut mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn, pa gymorth a roddir iddo a sut mae'n symud ymlaen i gymorth yn y gymuned neu fathau eraill o gymorth dros y tymor hir. Er na fydd angen rhagor o gymorth ar lawer o bobl ar ôl ailalluogi, bydd angen cymorth parhaus ar rai ac mae pontio esmwyth yn hanfodol i annibyniaeth a llesiant yr unigolyn.

Bydd SSIA yn parhau i helpu gwasanaethau ailalluogi Cymru i gyflawni eu rôl trwy gydweithio â Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi ynglŷn â gwella gwasanaethau a lledaenu gwybodaeth ac arferion da.

Dyma ragor o wybodaeth am waith SSIA ym maes ailalluogi: www.ssiacymu.org.uk/reablement